YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XXXIX. GORFFENNAF, 1939 RHIF 7.

Undodiaeth yng Nghymru.

RHYW fis yn ôl ymddangosodd erthygl yn y *Faner* o dan y pennawd hwn. Yr ysgrifennydd yw Morgan Llwyd, a bydd y dyfyniadau hyn o'r erthygl o ddiddordeb i Undodiaid Cymru.

Ymysg pethau ereill dywed :—" Nid oes gennyf y syniad lleiaf am nerth a rhifedi canlynwyr y grefydd hon yn y Gogledd na'r De ar hyn o bryd, nag ychwaith amcan pa faint o gynnydd a wnaeth er dyddiau'r Undodwr selog a'r llenor craff hwnnw, Dewi Hiraddug o Drelawnyd . . . A bod yn onest, oni ellir dweud heddiw mai Undodwyr yw naill hanner aelodau crefyddol ein capeli Anghydffurfiol, ac onid oes nifer mawr o'r cyfryw yn coleddu'r un syniadau hyd yn oed yn yr Eglwysi Esgobol yng Nghymru er na feiddiai'r aelodau hyn wneuthur datganiad pendant ac agored o'u golygiadau ?

" Saif Undodiaeth yn gyntaf oll dros Dadolaeth Duw. Dyma yn fyr yw conglfaen ei ffydd, a gellir yn hawdd dweud y gorwedd y ddysgeidiaeth benodol hon wrth wraidd a sylfaen Cristnogaeth ei hun. Dysgodd a dangosodd Crist hyn yn blaen iawn inni oll yn y Bregeth ar y Mynydd. ' Pan weddiech,' meddai, ' dywedwch ' Ein Tad '.' Eto, meddai wrth ei ddisgyblion, ' llewyrched felly eich goleuni gerbron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi ac y gogoneddont eich Tad,' etc. Eto gorchmynodd iddynt faddau i'w gelynion a thrwy hyn ddod yn debyg i'w ' Tad Nefol,' am iddynt faddau i bawb a'u drygai fel y maddeuai eu Tad ' yr Hwn sydd yn y Nefoedd iddynt hwythau eu camweddau ' ; iddynt beidio a gofalu dros drannoeth, oherwydd y gwyddai eu Tad ' yr Hwn sydd yn y Nefoedd beth oedd arnynt oll ei eisiau,' etc. Ar yr egwyddor gadarn hon y sylfaenai'r Undodwyr eu ffydd, ac nid oes gan yr Eglwyswyr na'r Catholigion na'r un Anghydffurfiwr egwyddorol yr un gweryl â hwynt ar y pen hwn.

"Dyma ail egwyddor eu ffydd—Brawdoliaeth Dynion yn ôl dysgeidiaeth yr Iesu, a gellir dweud eto pe heb yr egwyddor hon y byddai'r egwyddor gyntaf—Tadolaeth Duw—yn gwbl wâg a diystyr. Canys os Duw ei Hun yw Tad dynion, yna brodyr oll yw dynion i'w gilydd. Ond pan ddeuir i sôn am Dduwdod Crist, dyma ni ar unwaith yn myned yn rhanedig ar y ffordd gyda'r brodyr hyn. Gwir y derbyn y grefydd hon yr Iesu fel Arweinydd, fel Athro, ac fel Iachawdwr, gan wrthod yn eu geiriau hwynt yr holl weithredoedd gwyrthiol a gred ei ddisgyblion iddo eu cyflawni mewn oes mor ofergoelus a gwrthwyddonol.

Thomas Gee a'r Undodwyr.

"Crybwyllasom eisoes am Dewi Hiraddug. Trwy garedigrwydd cyfaill, anfonwyd imi bamffled o'i waith, a ymddangosodd yn yr 'Ymofynnydd' (Rhagfyr, 1900), ac a argraffwyd yn Aberdâr yn 1921—yn Swyddfa y 'Leader' a'r 'Darian' y pryd hynny. Cynnwys y pamffledyn sylwedd ymgom a fu rhwng yr hen Undodwr a Thomas Gee.

"Dyma fel y sgrifenna Dewi Hiraddug: 'Yn ystod haf 1891 euthum ar daith frysiog trwy Ddyffryn Clwyd . . . Ar y ffordd, fodd bynnag, arhosais am ryw hanner diwrnod yn Ninbych yn Swyddfa'r diweddar Mr. Thomas Gee . . . Cefais hanner diwrnod difyr iawn gyda'r hen wron. Myn rhai fod Mr. Gee dipyn yn gul; hwyrach ei fod e'. 'Rwyf yn sicr fod yn well ganddo gythraul nag unrhyw Undodwr proffesedig.

"'Yr ydych yn sgrifennu cryn lawer i'r *Faner*,' meddai wrthyf, 'y mae eich erthyglau yn dra derbyniol bob amser, ond yr wyf yn ofni'n fawr fod darllen y beirniaid diweddar yma, fel yr ydych yn eu galw, yn ansefydlu dipyn ar eich ffydd chwi.'

"'Diolch i chwi am eich awgrym cyntaf,' meddwn i. 'Wn i ddim yn iawn beth i'w ddweud gyda golwg ar y llall.'

"''Rwyf yn gobeithio yn fawr,' ebe Mr. Gee, 'nad ydych ddim yn anffyddiwr.'

"'Wel, os ydyw gwrthod yr hen draddodiadau diwinyddol am anffaeledigrwydd lythyrennol y Beibl, a chreadigaeth y byd, llygredigaeth ein natur a thynged dyn, yn gwneud anffyddiwr, yna rhaid imi ar unwaith gyfaddef mai anffyddiwr wyf.'

"'Ie, ie, ond a yw eich syniad chwi am Dduw yn un iach? Os ydych yn gwrthod y Beibl, ac eto yn dweud eich bod yn credu yn Nuw, hwyrach mai Oldduwiaeth ydych chwi yn ei gredu . . . Wel, beth bynnag ydych, 'rwyf yn mawr hyderu mai nid Undodwr ydych.'

"'Os credu mewn un Duw, a dim ond Un sydd yn gwneud Undodwyr, yna Undodwr ydwyf.'

" Gwell imi beidio â chario'r ddadl ymhellach, a dyna ddigon i ddangos rhagfarn Mr. Gee, a miloedd o rai cyffelyb iddo, parthed Undodiaeth yng Ngogledd Cymru yn ystod y blynyddoedd hynny."

Dyfynwyd darnau helaeth o'r erthygl yma yn y *Free Press*, Dinbych, ac ysgrifenna'r Parch. J. Tyssul Davies, B.A. amdani'n yr *Inquirer*,—

" Yn sicr, y mae'n gysur gwybod fod ymdrech galed y teidiau o blaid ffydd sy'n fwy hynaws o'r diwedd yn dwyn ffrwyth. Mewn ardaloedd nad oes ynddynt gapel Undodaidd, beth all Undodiaid wneud ond mynychu'r capel sy fwyaf rhyddfrydig ei olygiadau ? Y mae sail gref dros gredu hefyd fod eu presenoldeb yno'n rhyw fath o ysbrydiaeth i felysu chwerwedd iawnffyddiaeth, a chalondid i'r gweinidogion deithio'n fwy mentrus i gylchoedd meddyliol sy fwy eu perigl.

" Dylai'r hyn a ddywedir am y cyfnewid yn iawnffyddiaeth Gogledd Cymru fod yn newydd wrth fodd Dr. Griffiths a fu'n llafurio yno mor wrol fel cenhadwr gan wynebu cynddaredd ffyrnig, canys y gall sylweddoli yn awr na bu ei ymdrechion mor ddiffrwyth ag y myn cyraeddiadau allanol ymddangos."

Yn ei lyfryn—" Helyntion Heretic "—edrydd Dr. Griffiths hanes yr ymdrechion hyn. Yn wir, dylai'r llyfryn hwn fod ar fwrdd pob Undodwr. Ei bris yw chwe cheiniog, ac ystori ragorol sydd ynddo. Bydd yn dda gan liaws ffrindiau'r Dr. wybod ei fod yn rhodio'n gryf ar lwybr gwellhad yn Ysbyty Clydach, lle y mae ar hyn o bryd dan driniaeth feddygol. Estynnwn iddo ein cofion a'n dymuniadau.

Yn ei erthygl cyfeiria Morgan Llwyd at waith Dewi Hiraddug, neu fel yr adwaenir ef gan amlaf gennym ni, y Parch. D. Delta Evans, a fu'n golygu'r *Christian Life* am saith mlynedd ar hugain (1902—1929). Y mae yntau mor frwdfrydig a diwyd ag erioed, ac fel Dr. Griffiths yn ysgrifennydd cyson i'r YMOFYNNYDD. Y mae syndod fel y gwerthfawrogir ysgrifau Mr. Delta Evans, hyd yn oed ar bynciau diwinyddol, gan newyddiaduron Cymru, fel y *Faner* a'r *Cymro*, ac yn enwedig y *Gwyliedydd Newydd*, papur wythnosol yr Eglwys Fethodistaidd. Deallwn y cyhoeddir ganddo cyn hir lyfr newydd, " Rhedeg ar ol Cysgodion ac Ysgrifau Ereill," (Gwasg Gymraeg Foyle, Llundain. Pris—3s. 6c.), llyfr sy'n ymdrin yn ymarferol â rhai o broblemau mawrion bywyd a byw yng ngoleuni anesmwythyd ein byd yn yr oes wyllt bresennol.

Y MORGRUGYN.

Gofalus, bywiog filyn,—yn yr haf
Storia'n rhwydd fwyd blwyddyn ;
Diadwyth ydyw wedyn
Er ei gloi dan lwydrew'r glyn.

Trebanos. LLANORFAB.

Arholiad yr Ysgol Sul, 1939.

ADRODDIAD YR ARHOLWYR.

Bu cant ac wyth o blant yn eistedd yr Arholiad eleni, y rhain yn cynrychioli y Capeli canlynol—Alltyblaca, Brondeifi, Bwlchyfadfa, Capel y Bryn, Capel y Groes, Cribyn, Graig, Llwynrhydowen, Pantydefaid, Rhydygwin a Threbanos. Bu hanner cant yn ysgrifennu, a thrigain ond dau yn ateb ar lafar. Er lleied nifer yr ymgeiswyr yr oedd y gwaith yn gampus. Dengys yr atebion, ysgrifenedig a llafar, fod y plant wedi cael eu dysgu yn drwyadl. Rhaid rhoi gair o ganmoliaeth i Athrawon yr Ysgol Sul am weithio mor galed ar gyfer yr Arholiad. Y mae canmoliaeth hefyd yn ddyledus i'r ddau a fu'n tynnu allan y Maes Llafur am y flwyddyn. Teimlwn, er hynny, y dylasai Safon 3 gynnwys maes eangach. Y mae'r ffordd yma o roi'r Maes Llafur allan yn Yr Ymofynnydd yn sicr o fod yn fantais i'r Misolyn ac i'r Ysgol Sul. Dylasai mwy o ddefnydd gael ei wneud o'r Ymofynnydd yn y cyfeiriad hwn. Beth am gael ynddo ystoriau a dramäu i siwtio plant. Beth pe bai " Tudalen y Plant " yn ymddangos ymhob Rhifyn ? (Nid yw hyn ond gyda llaw). Diolchwn yn gynnes i'r Goruchwylwyr yn y gwahanol Gapeli, ac yn enwedig i'r Parch. J. D. Jones, am ei adroddiad manwl o'r Arholiad yn Nhrebanos.

Siomwyd ni am mai dim ond un a atebodd cwestiwn 8 i Safon 3, sef, " Cymherwch fywyd plentyn yn byw yng Ngwlad Canaan yn amser Iesu Grist a bywyd plentyn yn byw yng Nghymru heddiw." Dengys hyn mai'r atebion parod yn unig a ddysgir i'r plant. Y mae'r athro sy'n gwneud hyn yn lladd dychymyg ei ddisgybl, ac yn gwneud y gwaith bron yn sych. Gall yr athro brwdfrydig ddefnyddio storiau, dramäu a ffilmau i wneud y gwaith yn ddiddorol i'r plant.

W. D. Jones.
J. M. James.

Wele enwau'r rhai a fu'n llwyddiannus yn yr Arholiad uchod :—

Enillwyr y Gwobrau :

Safon III. Marian Davies, Capel y Bryn ; Elizabeth Hilda Evans, Rhydygwin ; Meudwen Williams, Trebanos ; Betty Phillips, Trebanos ; Denzil Jones, Capel y Bryn ; Tilly Jones, Caeronnen.

Safon II. Ceridwen Jones, Bwlchyfadfa ; Annie Jones, Bwlchyfadfa ; Nansi Edwina Evans, Trebanos ; Jenkin Jones, Cribyn ; May Davies, Rhydygwin ; Evan Edryd Williams, Cribyn.

Alltyblaca. *Safon I.* Alun Jones, Dewi Jones (Rhandir).

Safon II (ar lafar). Valmai Jones, Rhiannon Jones, Sally Harries, Arwel Jones, Freddie Rees, Gerald Jones.

Safon III (ar lafar). Lona Jones, Dewi Jones (Wellfield), Idwal Evans.

BRONDEIFI. *Safon I.* Alcwyn Williams, Aneurin Jones.

Safon II (ar lafar). Eileen Jones, Doreen Davies, Rosemary Davies, Rowena Davies, Gwladys Davies, Ieuan Jones, John Jones, William Davies, Dennis Williams.

Safon III (Ysgrifenedig). Gwyneth Davies, Nora Evans.

BWLCHYFADFA. *Safon I.* Hetty May Ansell.

Safon II (Ysgrifenedig). Ceridwen Jones, Annie Jones, Artie Jones, Sallie Jones, Mary Jones, Gwenllian Ansell.

Safon III (Ysgrifenedig). Hannah Elena Jones, Annie Davies.

CAERONNEN. *Safon III (Ysgrifenedig).* Tilly Jones.

CAPEL Y BRYN. *Safon I.* Lorna Morgan, Hywel Jenkins, Ivy Meade, Sally Morgans, Bevan Morgan, Myra Evans, Ronald Davies.

Safon II (Ysgrifenedig). Betty Morgan, Mary Morgans.

Safon III (Ysgrifenedig). Marian Davies, Denzil Jones, Anna Beryl Jones.

CAPEL Y GROES. *Safon II (ar lafar).* Jenkin Ifon Jones, Joshua Aeron Davies, Nansi Esther Anne Davies, Betty Kent.

CRIBYN. *Safon I.* Mary Davies, Mary Roderick, Gruffydd Jenkins, Iwan Davies, Evan David Jones, John Arthur Roderick.

Safon II (Ysgrifenedig). Jenkin Jones, Evan Edryd Williams, Lloyd Jones, Alun Howells, Walter Roderick, Glyndwr Davies, Nancy Howells, Hannah Jane Jones.

Safon III (Ysgrifenedig). Eirlys Davies, James Llewelyn Davies.

GRAIG (LLANDYSUL). *Safon I.* John Davies, Alun Davies.

GRAIG (TREBANOS). *Safon I.* Derith Powell, Elizabeth Lewis, Peggy Williams, Beryl Richards, Colin Morgan, Islwyn Bishop, Trevor Ronald Welin Bending.

Safon II (Ysgrifenedig). Nansi Edwina Evans, Islwyn Phillips.

Safon III (Ysgrifenedig). Meudwen Williams, Betty Phillips, Myra Davies, Mary Phillips, Myfanwy Thomas, Mina Hartnell, Donald Phillips.

LLWYNRHYDOWEN. *Safon I.* Daniel Davies, James Ivor Eldrich, D. Edgar Jones, Glanville Williams, James Gwynfor Jones, Elizabeth Jones.

Safon II (Ysgrifenedig). Essie Jones, Tyssul Owen Evans, Mag Crabb, Gwyneth Williams, Olwen Evans, John Daniel Jones, Glen Jones.

Safon III (Ysgrifenedig). Myra Parry, Evan David Jones.

PANTYDEFAID. *Safon I.* Peggy Evans, Hilda James Lewis, Samuel Trevor Evans.

Safon III (Ysgrifenedig). Annie Mary Evans, Sarah Cerdina Davies.

RHYDYGWIN. *Safon II (Ysgrifenedig).* May Davies.

Safon III (Ysgrifenedig). Elizabeth Hilda Evans, James A. Evans, Lynn Davies.

D. EMRYS REES (*Ysgrifennydd*).

Y Broblem Gymdeithasol—a Ellir ei Setlo?

GWRANDO ar ddadl ar broblemau cymdeithasol rhwng dau gyfaill fu'n achlysur ysgrifennu'r ychydig nodiadau hyn. Bu cyfarfod yn y prynhawn ac un o'r gweinidogion yn darllen papur ac yn apelio atom i ddefnyddio mwy o'n dychymyg wrth drafod y materion cymdeithasol.

Gan fod dros awr o amser cyn cyfarfod yr hwyr cawsom hamdden i feddwl dros yr hyn a glywsom yn y prynhawn.

Teimlodd Mr. A. nad oedd y siaradwr wedi mynd yn ddigon pell, tra yr oedd Mr. B. ar y llaw arall yn ei amddiffyn. Yn yr amddiffyniad cawsom lawer awgrym pwysig a barodd i rai ohonom agor ein llygaid a meddwl yn ddwysach am y problemau hyn. Fe ofynnodd un hefyd pam na allesid cael ambell nodyn ar y materion hyn yn YR YMOFYNNYDD. Cwynir nad ydyw diwinyddiaeth yn cael fawr sylw y dyddiau hyn, ac felly pam na ellir cael trafod materion cymdeithasol sydd o ddiddordeb mawr heddiw.

Cawsom flas wrth wrando'r ddadl, a daeth llawer pwynt yn fwy clir inni. Un o'r brawddegau cyntaf a dynnodd ein sylw ydoedd hon, sef, *ni ellir setlo'r broblem gymdeithasol.* Teimlem ar unwaith fod y fath osodiad yn anghywir ac yn taro nodyn anobeithiol dros ben, a pharod oeddem bob un i neidio ar Mr. B. am ddweud y fath beth. Wedi gwrando ymhellach ar ei esboniad gwelsom y frawddeg mewn goleuni newydd ac nid oeddym mor barod i gondemnio Mr. B. Ei gŵyn ydoedd ein bod yn ceisio gwneud gormod ar unwaith, a gwaith a oedd tuallan i'n cyrraedd, ac felly yn cael ein siomi oherwydd yr aflwyddiant. Ceisiwn ymaflyd yn y broblem yn grynswth, pan byddai un agwedd arni mewn gwirionedd yn llawn digon inni. Dygodd nifer o bwyntiau eraill i sylw er cadarnhau ei osodiad, a dyma rai ohonynt.

Gan ein bod yn derbyn y syniad o ddatblygiad, amhosibl ydyw edrych ar fywyd fel rhywbeth static ac ansymudol, ac felly ni allwn ni heddiw ddyfeisio cynllun i setlo holl broblemau cymdeithasol y dyfodol. Fe gwyd problemau newydd, a rhaid fydd wrth gynlluniau newydd i gwrdd a'r rheini. Bydd yn rhaid i bob oes wynebu ei phroblemau ei hun, a beth a wyddom ni am yr hyn a ddigwydd yn y dyfodol, ac ni wna'r dyfodol roddi diolch inni chwaith am geisio setlo ei broblemau ef, oherwydd myn wneuthur hynny yn ei ffordd ei hun. Gwell lawer fyddai inni ddelio a'r hyn sydd o fewn ein cyrraedd na cheisio dyfeisio cynlluniau gogyfer a'r oesoedd sydd i ddod ; i wneud ein rhan *heddiw* na breuddwydio am broblemau'r dyfodol pell, oherwydd ofer ydyw gosod gwin newydd mewn hen gostrelau.

X.Y.Z.

Daliadau'r Undodiaid—a Phaham.

Gan y Parch. G. J. Sparham, Bryste.

[*Parhad o dudalen* 75].

Mewn ysgrif flaenorol cyfeiriwyd at Iesu fel "y datguddiwr mawr." Yn wir, meddylia'r Undodwr amdano nid fel "dyn cyffredin" ond yn hytrach fel "dyn anghyffredin,"—er hynny, yn ddyn. Cymrant y safbwynt hwn am fod barnu yng ngolau rheswm a chydwybod yn eu tywys tuag ato.

Cyfiawnheir yr atitiwd yma pan gofir fod yr un peth a ddigwyddodd i Iesu wedi digwydd i sylfaenwyr crefyddau ereill fel Bwda a Chonffiwsius. Mynnodd parch addolgar eu dilynwyr eu dyrchafu o lefel ddynol i lefel y Duwdod.

Pan ystyrrir tyfiant y Testament Newydd, yn ôl dysg yr ysgolheigion modern, gwelir hefyd gyfiawnhau safbwynt yr Undodwr. Cymerer y bedair Efengyl, a gosoder hwy nid yn y drefn y maent yn y Testament Newydd ond yn y drefn y cynhyrchwyd hwy—Marc, Mathew, Luc, Ioan ; neu hwyrach, Marc, Luc, Mathew, Ioan. Dyma welir. Yn yr Efengyl gyntaf ceir y portread mwyaf dynol o Iesu ; yn yr Efengyl ddiwethaf canfyddir yn amlwg broses y duweiddio. Proses naturiol i'r amseroedd ydoedd.

Tueddiadau'r Efengylwyr.

Nid ysgrifennwyd yr un o'r Efengylau'n ystod oes Iesu. Cyhoeddwyd y gyntaf, yn ôl pob tebyg, tua deng mlynedd ar hugain wedi'r croeshoelio. Y mae proses y duweiddio wedi cychwyn pan ysgrifennwyd yr Efengyl gyntaf, ac y mae wedi cyrraedd ymhell erbyn cyhoeddi'r Efengyl ddiwethaf. Amlwg fod y duedd at dduweiddio Iesu'n cynhyddu gydag amser. Gofyn yr Undodwr i ni am ddilyn y proses yn ôl. Yn yr Efengyl ddiwethaf dangosir Iesu fel un a oedd yn un a Duw yn ei fywyd ysbrydol, er hynny yn is na'r Tad. Yn yr Efengyl gyntaf dangosir ef fel un a feddai ar alluoedd ysbrydol arbennig ond yn ymddibynu ar Dduw, un a'i ymddiried yn Nuw, a weddïai arno, yn newynog ac yn sychedig, ei wybodaeth o'r dyfodol yn gyfyngedig ac ar brydiau'n anghywir ac, er fod ei ddysgeidiaeth yn dragwyddol, gwisgodd ei syniadau yn nulliau meddwl yr oes yr oedd yn byw ynddi. Dangosir i ni hefyd un a ddywedodd yn bendant ddigon nad Duw ydoedd, ond yn hytrach edrychai arno'i hun, mewn ystyr, yn Feseia (nid Duw ond Eneiniog Duw). Ar y Groes teimlai fod Duw wedi ei wrthod. Deil yr Undodwr fod yr Efengylau'n cyfiawnhau ei gred.

Wele ddyn a dduweiddiwyd gan oes ddiweddarach. Dyna'r casgliad y'n harweinir ato pan ddarllenir hanes Iesu yng ngolau rheswm a chydwybod.

Ceisiwyd dangos trwy enghreifftiau y modd y defnyddia'r Undodwr egwyddor sylfaenol ei ffydd—sef, barnu yng ngolau rheswm a chydwybod. Ystyriwyd ei athrawiaeth am Dduw, am y Beibl, ac am Iesu. Pe caniatai gofod gellid ystyried enghreifftiau ereill, ond digon yn awr fydd dweud mai trwy ddefnyddio'r egwyddor hon y daw'r Undodwr o hyd i'w gasgliadau.

(*I'w barhau*).

Ein Cymanfaoedd Canu.

CYLCH MORGANNWG.

CYFEIRIWYD at y gymanfa hon mewn mwy nag un paragraff yn yr YMOFYNNYDD diwethaf, ond o ddiffyg gofod ni chafwyd y manylion. Cynhaliwyd hi yng Nghapel Aubrey, Cefn Coed ar Ebrill 12, ac arweiniwyd y canu gan Mr. Rees Powell, yntau o Gefn Coed. Arfer cylch Morgannwg yw dewis yr arweinydd o'r eglwysi sydd yn yr undeb. Ai mantais ynte anfantais ydyw hyn, caiff y cerddorion benderfynu, ond gwn hyn—fod yr arfer yn rhoi cyfle i godi arweinyddion yn ein cynulleidfaoedd, ac yn helpu nid yn unig y canu ar ddydd y gymanfa ond y canu drwy gydol y flwyddyn. Dyn ieuanc yw Mr. Powell, a dyma'r tro cyntaf iddo arwain y gymanfa. Llongyfarchwn ef ar lwyddiant ei gynnig cyntaf. Llywyddwyd yn oedfa'r bore gan Mr. T. Llanorfab Jones, Trebanos. Llenor gwych yw Mr. Jones, ac yr oedd hynny'n amlwg ar wedd ei araith. Dywedodd fod y llais yn un o'r doniau pennaf a roddwyd i ddyn, ac meddai—

Rhyw seiniol, ddwyfol ddyfais—o waith doeth
At iaith dyn a'i ymgais ;
Huodledd Duw mewn adlais,
A dawn llef—dyna yw llais.

Rhoes gyweirnod i'r gymanfa pan ddywedodd mai " dydd yw hwn wedi ei neilltuo i waith arbennig—sef, rhoi mawl i Dduw ar ein gorau." Nid wyf fi feirniad canu, ond credaf i'r cantorion ymhob oedfa fod ar eu gorau. Er mwyn cael cymanfa dda pwysleisiai'r llywydd fod tri o bethau na ddylid eu hesgeuluso—dysgu canu'n dda yn ôl rheolau cerddoriaeth ; gwneud y canu'n glod a mawl i'r Goruchaf ; parhau i ganu'n dda a chlodforus wedi i'r gymanfa fynd heibio.

Cyfeiliwyd gan Mr. W. J. Jones, A.L.C.M., ac yn y gwahanol oedfaon adroddwyd emynau gan Irene Thomas, Olive Gould, a Gwen Mary Watkins. Canwyd dwy gân gan Randall Davies, Cefn Coed. Adroddwyd gan Betty Williams, Trecynon ; Menna Thomas, Trebanos ; a W. R. Evans, Aberdar. Cyd-adroddwyd salm gan Mona Morris a Joyce Allyet. Arweiniwyd defosiynau'r oedfaon gan Mr. D. Jacob Davies, y Parchn. J. Marles Thomas, M.A., a J. H. Coram Davies, B.A. Llywyddwyd yn oedfa'r prynhawn gan Mr. D. T. Williams, Trecynon—dyn ieuanc sy'n selog a brwdfrydig dros yr achos gorau. Atgofiodd ni am yr hen gewri a fu'n llafurio dros y gymanfa ganu, ac am ddyled Cymru i'r gymanfa ganu. Anogodd ni i fawrhau ein breiniau, a thynnodd ein sylw at y mannau hynny o'r byd lle y mae'r Dictaduron yn tra-arglwyddiaethu. " Dictatorships," meddai, " are like beech trees. No flowers grow on them, and nothing grows under them."

Yn oedfa'r hwyr llanwyd y gadair gan Mr. T. Lewis, Cefn Coed—un o ffyddloniaid y gymanfa a philer o gadernid yn yr Hen Dŷ Cwrdd. Mynegwyd y diolchiadau arferol gan Mr. John Hopkin, Trebanos, ac ategwyd ef gan Mr. Taliesin Griffiths, Trecynon. Diolchwyd gan y Parch. J. Marles Thomas i ddiaconiaid Capel Aubrey am fenthyg y capel, ac i Mr. a Mrs. Richie Watkins am fenthyg yr organ.

Cafwyd dydd dymunol a chanu hwylus, a hyfryd ydoedd gweled cynifer o'n cyfeillion o Geredigion yn bresennol.

CYLCH CEREDIGION.

Cynhaliwyd y gymanfa eleni yng Nghapel Soar, Llanbedr. Caed hin ddymunol, a daeth tyrfa fawr ynghŷd o bob cwr o'r sir, ac hefyd o Aberdar, Abertawe, Caerfyrddin, Pontardawe, Llandeilo, Ferndale, Machynlleth, a thu hwnt i glawdd Offa o Bridgewater a Llundain. Amlwg fod dylanwad y gymanfa'n para mewn bri gymaint ag erioed. Edrychir bellach ar y gymanfa fel " man cyfarfod " gan liaws o Undodiaid sydd ar wasgar. Cyrchant yno i adnewyddu cyfeillgarwch a chydganu mawl i Dduw, a derbyniant iechyd ysbrydol newydd a mwynhad i'w meddyliau o gyfarfod â hen gyfeillion bore oes.

Yr oedd cyfarfod y bore'n gyfyngedig i'r plant, a chawsom ganu swynol a melys ganddynt. Arweiniwyd mewn defosiwn gan y Parch. S. E. Bowen, a llywyddwyd gan Mrs. Mary Jones, Gelliaur, aelod selog o gapel y Llwyn. Un o deulu a fu'n dal cysylltiad blaenllaw a cherddoriaeth drwy'r ganrif ddiwethaf yw Mrs. Jones, a chafwyd ganddi anerchiad gynhwysfawr. Gofynnodd i'r plant am fod yn ffyddlon i'r Ysgol Sul a'r Ysgol Gân. Hefyd cyflwynodd dair ar ddeg o dystysgrifau i'r plant a fu'n llwyddiannus yn arholiad y *Tonic Solfa*. Yr oeddynt i gyd o gapel Bwlchyfadfa, ac addysgwyd hwy gan Miss Lil Lewis, A.L.C.M., organyddes y gynulleidfa yno. Esiampl nodedig i'r eglwysi ereill. Diolchwn iddi. Adroddwyd emynau gan amryw blant o wahanol eglwysi'n effeithiol iawn, yr ieuengaf ohonynt—I. Gwen Evans o Landysul—yn ddim ond chwech oed.

Dechreuwyd cyfarfod y prynhawn gan y Parch. Lewis Williams, a llywyddwyd gan Mr. T. Elgan Jones, Llanbedr. Caed araith wresog, fywiog, a buddiol ganddo llawn o frwdfrydedd dyn ieuanc sydd nid yn unig yn torri geiriau ond yn llawn egni a'i holl ysbryd yn y gwaith er llwyddiant i'r achos. Canodd Miss Marian Davies, Cwrtnewydd unawd yn anrhydeddus, a mwynhawyd ei llais melys a'i harwedd feistrolgar. Arweiniwyd hi gyda'r *accompaniment* prydferth gan Mr. Ted Morgan, ein horgannydd medrus.

Dechreuwyd cyfarfod yr hwyr gan y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., Trebanos, a llywyddwyd gan yr henafgwr parchus, Mr. Timothy Richards, Y.H., Llanbedr. Cyfeiriodd yn dlws iawn at y cewri cerddorol " o Landysul i Giliau," a dywedodd fod hôl eu hymdrechion ar ein canu heddiw. Diddorol dros ben i'r bobl ieuainc ydoedd yr hanes hwn am lafur a thrafferthion yr hen arweinwyr. Nid er tâl ac hunan-lês y gwnaeth y brodyr hyn eu gwaith ond o serch mynwesol tuag at sefydlu cerddoriaeth er budd i'r cynulleidfaoedd a'r gwasanaeth cyhoeddus.

Allan o bedair tôn gyfaddas i blant dyfarnodd yr arweinydd y wobr i Mr. D. Jones, Drefach House, Llanbedr. Y mae Mr. Jones yn gerddor medrus, ac efe sy'n gofalu am yr argraffwaith cerddorol yng Ngwasg Gomer, Llandysul.

Eleni eto cafwyd arweinydd newydd am y tro cyntaf yn ein plith, Mr. Mathew Williams, F.R.C.O., Amlwch, Sir Fôn. Yn herwydd sirioldeb a medrusrwydd Mr. Williams tynnodd sylw y gynulleidfa fawr tan ei arweiniad yn uniongyrchol. Treimlai'r cantorion fod ei arweiniad yn sicr, a bu rhyngddynt ddealltwriaeth berffaith. Caed canu llewyrchus, ac yn wlêdd ymhob ystyr.

Clywir cwyno o amryw gyfeiriadau nad yw'r cymanfaoedd mewn cymaint bri ag oeddent. Ofnwn fod llawer o'r bai am hyn ar esgeulustod y paratoi yn ystod misoedd y gaeaf, ac ar y golled o fethu darllen *Solfa* yn gyffredinol. Clywsom son am hyn gan un o'r llywyddion. Er cymaint llwyddiant y gymanfa y mae un peth sy'n wir angenrheidiol i bwyllgor y gymanfa a'r eglwysi ei ystyried —sef, gofalu am addysgu *solfa* i'r ieuainc. Y mae treigl amser hefyd yn dweud wrthym am baratoi arweinyddion newydd i lanw lle'r hen.

Arweiniwyd y cyfarfodydd drwy'r dydd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr, a diolchwyd i bawb yn wresog am eu gwasanaeth gan Mr. Josiah Jones, Y.H., Garthowen. Wrth yr organ drwy'r dydd yr oedd Mr. Ted Morgan, Llandysul.

Ac ystyried cynulliad mor llawn a sel cynifer o bobl ieuainc credwn fod llwyddiant dyfodol y gymanfa'n sicr am flynyddoedd i ddod.

Derwydd, Brynteify. J. C. Jones.

DEDWYDDFA.

Key C. DAN DAVIES, L.T.S.C., Llanybyther.

:s |fe :- :s |l :- :s |d' :- :- |- :t :l |s :- :l |f :- :s |m :- :- |- :-
:m |re :- :m |f :- :m |m :- :- |- :s :f |m :- :f |r :- :t, |d :- :- |- :-
:d' |d' :- :d' |d' :- :d' |d' :- :- |- :d' :d' |d' :- :d' |t :- :s |s :- :- |- :-
:d |d :- :d |d :- :d |d :- :- |- :m :f |s :- :s |s, :- :s, |d :- :- |- :-

G.

:m |r s, :- :s, |d :- :r |m :- :- |- :s :f |m :- :f |r :- :m |d :- :- |- :-
:d |t, m, :- :m, |s, :- :t, |d :- :- |- :d :d |d :- :d |t, :l, :t, |d :- :- |- :-
:s |s d :- :d |m :- :s |s :- :- |- :s :l |s :- :l |f :- :s |m :- :- |- :-
:d |r s, :- :s, |m, :- :r, |d, :- :- |- :m, :f, |s, :- :s, |s, :- :s, |d :- :- |- :-

C.

:ds |m' :- :m' |r' :d' :r' |m' :- :- |m' :- :m' |d' :t :l |d' :t :l |t :- :- |- :-
:ds |d' :- :d' |t :l :t |d' :- :- |d' :- :s |l :- :l |l :- :l |se :- :- |- :-
:ds |s' :- :s' |s' :- :s' |s' :- :- |s' :- :m' |re' :- :re' |re' :- :re' |m' :- :- |- :-
:ds |d' :- :d' |s :- :s |d' :- :- |d' :- :d' |f :- :f |f :- :f |m :- :- |- :-

:t |d' :- :d' |d' :t :l |s :- :f |m :- :l |s :- :d' |d' :- :t |d' :- :- |- :-
:se |l :- :l |l :s :f |m :- :r |d :- :re |m :- :s |l :- :s |s :- :- |- :-
:m |m' :- :m' |f' :- :d' |d' :- :s |s :- :d' |d' :- :m' |r' :m' :f' |m' :- :- |- :-
:m |l :- :l |f :- :f |s :- :- |d :- :fe |s :- :s |s :- :s |d' :- :- |- :-

CYTGAN.

Yr Ie - - - - su, Yr Ie . - - - - su,

:s |d' :- :- |- :- :- |- :- :t |d' :- :s |r' :- :- |- :- :- |- :- :- |r' :-
: | : :s |l :l :l |s :- :- |s :- : | : :t |l :t :d' |d' :t :l |t :-
: | : :d' |d' :d' :d' |d' :- :f' |m' :- : | : :r' |r' :r' :r' |r' :- :- |r' :-
: | : :d |f :f :f |m :- :r |d :- : | : :s |fe :fe :fe |s :- :fe |s :-

Can-lynaf yr Ie - su, Can-lyn-af yr Ie - - su.

:s |m' :- :m' |d' :- :d' |f' :- :- |f' :- :m' |r' :- :r' |d' :- :t |d' :- :- |- :-
:s |s :- :s |s :- :s |l :- :- |s :- :s |l :- :l |s :- :s |s :- :- |- :-
:r' |d' :- :d' |d' :- :d' |d' :- :- |r' :- :m' |f' :- :f' |r' :m' :f' |m' :- :- |- :-
:t |d' :- :d' |ta :- :ta |l :- :- |t :- :d' |f :- :f |s :- :s |d' :- :- |- :-

Drwy f'oes can - lyn - af Ie - su Fy hoff ar - wein - ydd yw

MAE'R byd i mi yn hyfryd
A llawn o nefol swyn,
A'r haul sydd yn disgleirio
Ar bopeth imi'n fwyn ;
Mi wn caf fod yn ddedwydd
Tra byddwyf yma'n byw ;
Drwy f'oes canlynaf Iesu,
Fy hoff arweinydd yw.

Nid ydwyf ond pererin
Sydd newydd ddechreu'i waith ;
Dywedir y daw tristwch
Cyn cyrraedd pen y daith :
Mae'r byd yn llawn helbulon
A galar, meddant hwy,
Ond mi ganlynaf Iesu
Tra byddwyf yma mwy.

Er dyfod pob treialon
A phoen, ni byddaf drist ;
Cans cadwaf fyth yn agos
I'm hathraw, Iesu Grist ;
Un niwed ni wna angau,
Oherwydd yntau ddaw ;
Ond dan arweiniad Iesu
Caf fynd i'r nefoedd draw.

ANNA B. WARNER (*cyf.* R.J.J.).

CYNGOR YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL.

CYNIGIR y gwobrwyon canlynol gan Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol :—
(*1*) TRAETHAWD—" Ffyniant a Diflaniad yr Iaith Gymraeg ar y Gororau."—*Gwobr* : 100 Gini.

Beirniaid—Yr Athro W. J. Gruffydd.
Mr. R. T. Jenkins.

Rhoddir tair blynedd at y gwaith hwn, ac ni ofynnir i'r cystadleuwyr anfon eu traethodau hyd tua Mehefin, 1942. Hysbysir y dyddiad terfynol etc. yn y Wasg ac yn Nhestunau Eisteddfodau 1941 a 1942.

(*2*) Cyfansoddiad Corawl (ar eiriau Cymraeg a Saesneg) gyda chyfeiliant i Gerddorfa lawn—i gymryd rhwng 15 a 30 munud o amser. *Gwobr* : £50.

Rhoddir dwy flynedd at y gwaith hwn, ac ni ofynnir i'r cystadleuwyr anfon eu cyfansoddiadau hyd tua Mehefin, 1941. Hysbysir y dyddiad terfynol, etc. yn y Wasg ac yn Rhestr Testunau Eisteddfod 1941.

HYSBYSIAD O DDIDDORDEB I LENORION A CHERDDORION.

PRO PATRIA.

Ynglyn ag Eisteddfod Genedlaethol Dinbych cynigiodd Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol wobr o £20 am " Gyfansoddiad Corawl (ar eiriau Cymraeg neu Saesneg) gyda chyfeiliant i Gerddorfa lawn, yn seiliedig ar Hanes neu Ramant Cymru." Enillwyd y wobr gan Mr. Haydn Morris, Mus. Bac., Llanelli, am waith yn dwyn y teitl—" Pro Patria " ac ar eiriau gan Mr. A. G. Prys Jones. Cyhoeddwyd y gwaith hwn (H.N. 2s. 6c., Solfa 1s. 6c.) gan Fwrdd Gwasg y Brifysgol dros Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol a dyma flaenffrwyth cytundeb a wnaed rhwng y ddau sefydliad cenedlaethol hyn i gyhoeddi gweithiau buddugol yr Eisteddfod y bernir eu bod o safon teilwng. Yn unol ag amodau y gystadleuaeth rhoddir perfformiad o " Pro Patria " yn Ninbych gan Gor yr Eisteddfod dan arweiniad y cyfansoddwr.

HANES PLWYF LLANDYBIE.
LLAWLYFR AR Y CYNGANEDDION.

Bwriedir hefyd geisio cyhoeddi mewn pryd i'w gwerthu yn ystod Eisteddfod Dinbych ddau waith llenyddol a fu'n fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, sef

(*1*) " Hanes Plwyf Llandybie " gan y Parch. Gomer M. Roberts, Pontrhydyfen, a enillodd wobr o ugain gini am draethawd ar " Hanes unrhyw blwyf yng Nghymru " a

(*2*) " Llawlyfr ar y Gynghanedd a'r Farddoniaeth Gynganeddol " ar gyfer plant dan 15 oed. Awdur y llawlyfr yw Mr. J. J. Evans, M.A., Tyddewi.

Gellir cael manylion pellach am y gweithiau hyn a hefyd am brisiau gostyngol cyhoeddiadau Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol oddiwrth YSGRIFENNYDD, BWRDD GWASG PRIFYSGOL CYMRU, PARC CATHAYS, CAERDYDD.

Lloffion o Hen Ddyddiadur (1819—1858).

Detholwyd a golygwyd gan Miss K. Jones, Gellifaharen.

(*Parhad o dudalen* 80).

Y mae cynnwys yr " hen ddyddiadur " mor llawn o ddigwyddiadau'r amseroedd fel na all fethu a bod o ddiddordeb i ddarllenwyr hynaf Yr Ymofynnydd. Yr ysgrifennydd ydyw'r Parch. John Thomas a fu'n weinidog Pantydefaid o 1816 hyd 1846.

1847.

Medi 2. Yfodd Mr. Stevens a minnau dê yn Nhroedrhiwffenyd. Nid oedd Mr. Griffiths gartref. Talais am lwyth gwagen o lo, 12 *drays* am 10c. yn y pwll. £1 9s. 6c.

Medi 10. Cerddodd Mr. Stevens a minnau heibio i Gastell Gwilym hyd at y tyrnpeg ac yn ôl heibio i Gorrig Inn.

Medi 11. Bu farw James Lloyd, Aberglasney, heddiw.

Medi 13. Euthum tuag 11 o'r gloch i'w angladd a oedd yn fawr iawn. Claddwyd ef ym Mhantydefaid. Pregethodd Mr. Thomas Thomas oddiar Salm iv, 8. Cynhaliwyd cwest Crowner yng Ngalltyrodyn Arms. " Marw sydyn mewn llewyg," meddai fy landlord.

Medi 14. Daeth John Thomas yn ôl i'r ysgol ddoe, wedi iddo fod yn absennol oddiar imi dorri lan ym Mehefin.

Medi 16. Talais i'r gwydrwr am dri chwarel o wydr. 1s. 6c.

Medi 19. Pregethodd Mr. P. Joseph yn fy Ysgoldy.

Medi 20. Galwodd David Thomas Cribor arnaf. Hebryngais ef gartref mor bell a Blaencefel.

Medi 26. Pregethais yng Nghribin—derbyniais 2s. Brochgeuais i Giliau. Pregethais I Ioan v, 4. Cefais 2s. Yr oedd yno lawer o bobl Ystrad yn trefnu am gael defnyddio Capel Ciliau tra'r oedd y capel newydd yn cael ei adeiladu yn lle'r un ar dir Lloyd Jack.

Medi 27. Nid oedd ysgolhaig gennyf yr wythnos ddiwethaf.

Medi 29. Bum yn arwerthiant Cwmhyar.

Hydref 12. Nid oes gennyf ond dau blentyn Thomas Richard Pontweli yn ysgolheigion.

Hydref 18. Gwneuthum ymgais arall i agor ysgol. Daeth wyth ysgolhaig. Dechreuodd David, mab Thomas Cwmawr, yn yr ysgol a lletyodd gyda mi.

Tachwedd 5. Euthum i gwrdd Alltyplaca. Mr. Lloyd yn pregethu oddiar Effesiaid ii, 8, a minnau ar ei ôl oddiar I Ioan i, 7.

Tachwedd 7. Pregethais yn y Llwyn i gynulleidfa fach. Ioan x, 30. Yfais dê yn Felingeiron.

Tachwedd 13. Cefais fasned o fenyn o Gwmawr. Talais 6s. 8c. i'r Parch. Mr. James am y " *Carmarthen Journal* ".

Tachwedd 20. Daeth Mr. Stevens yn ôl yma heddiw wedi iddo fod ar daith (*tour*) yn Llundain. Ymddengys yn gryfach na'r pryd y'm gadawodd. Dywaid wrthyf fod yr hurtwch—Mesmeriaeth—yn ennill tir yn gyflym yn Lloegr.

Tachwedd 28. Talodd David Charles a Thomas ' Charles Town ' am yr Ymofynnydd am bedwar mis.

Rhagfyr 5. Llifogydd yn yr afon. Peth dwr dros gadwyn y cwch (boat chain) yn Mhen Pwll.

Rhagfyr 7. Cwrdd Cymdeithas y Beiblau (Bible Society) yng Nghapel y Wesle.

Rhagfyr 11. Y llif mwyaf a welwyd yn Nheifi gan unrhyw ddyn sy'n fyw yn awr.

Rhagfyr 12. Pregethodd Mr. Peter Joseph yn fy ysgoldy. Siaradodd am y Samariad. Pregeth dda.

Rhagfyr 24. Talais am wydr yn ffenestr yr ysgol 6c. Gwelais ar yr heol y Parch. Thomas Thomas, Fadfa. Dywedodd fod ei ewythr o Bantiorlech yn dal yn wael iawn.

1848.

Ionor 5. Daeth wyres John Enoch Felingeiron a ffowlyn yn bresant i mi, ac adgofiodd fi am ffair Llanwenog, y dydd o flaen dydd y rhent.

Ionor 6. Rhoes y Misses Jones Nantyrymenyn bresant i mi o wydd. Arthur Lloyd Davies [Blaendyffryn] yn dod i'w oed. Y clychau'n canu gyda'r wawr. Rhoes ginio dda i'w denantiaid amaethyddol (*farmer tenants*) yng Ngalltyrodyn Arms, winshin o farlys, etc. i bob labrwr, etc. ar ei ystad. Rhoes i'r Parch. Enoch James y Ficer £10 i'w rhannu rhwng tlodion y pentref hwn. Coelcerthi'n y nos.

Ionor 9. Pregethais yng Nghwmwr Du oddiar I Tim. i, 15. Cymrais dê yn y Garth.

Ionor 28. Daeth Thos. Jones Cwmawr a'i ferch Dinah i'r ysgol ac i letya gyda mi. [Bu farw Mrs. Dinah Jones, 20 Mawrth, 1931, yng Nglanbran, Llansamlet yn 96 mlwydd oed—K. J.]

Ionor 28. Bum yn angladd John, mab David Edward ar dir Login, a phregethais oddiar Pregethwr xii, 1.

Ionor 29. Euthum i weld Jack James Isaac sydd yn wael iawn, newydd ddod yn ôl o Ferthyr. Darllenodd Mr. Evans lythyr Mrs. Ben Davies o America.

Ionor 30. Ni ddaeth neb ond Pegi Pantmelyn i edrych a oedd cwrdd.

Chwefror 9. Bum bron a chwympo mewn llewyg wedi brecwast.

Chwefror 20. Pregethais yn yr ysgoldy oddiar I Thes. v, 10, i gynulleidfa fach, a gweinyddais Swper yr Arglwydd.

Chwefror 28. Derbyniais 12 copi o'r YMOFYNNYDD am fis Mawrth. Gwerthais 120 o blanhigion bresych (cabbage plants) i Begi Pantmelyn. 'Rwy'n gwneud presant ohonynt.

Mawrth 2. Clywais fod crwydriaid (*stragglers*) wedi ceisio ysbeilio John a mab Wm. Penrhiw neithiwr yn ymyl Abercerdin.

Mawrth 3. Bore heddiw clywais am y chwyldro yn Ffrainc. Y mae'r brenin wedi ymddeol o'r orsedd. Dywedwyd wrthyf ei fod yn awr yn Lloegr yn St. James's Palace yn ymweled a'n Brenhines.

Mawrth 10. Yfais beint o gwrw mewn bwdram bob nos y dyddiau diwethaf hyn o achos fy annwyd.

Mawrth 11. Euthum i Nantyrymenyn. Wedi gwlychu'n enbyd.

Mawrth 12. Euthum i Bantydefaid i wrando ar Mr. Rees Davies yn pregethu. Esay. xxviii, 16.

Heddiw cyfarfum â Dr. Lloyd, Tutor, yn Wilkes' Head. Pregethodd ym Mhanteg yn y bore, ym Mhenriw yn y prynhawn, a phregethodd a bedyddio mewn ffermdy yn ymyl Llangeler yn yr hwyr.

Mawrth 13. Galwodd Mr. Rhys Thomas, Ffoshelyg, arnaf ynghlych cytundeb (*memorandum*) a roddais iddo ac a gollodd yntau wedi hynny.

Bwriada Mr. P. Joseph sefydlu yng Nghiliau.

Mawrth 19. Pregethais yn fy ysgoldy i'n agos 25 o bersonau, a gweinyddais Swper yr Arglwydd.

Mawrth 20. Euthum i Dregroes i weld John Isaac sy'n ymddangos yn prysuro at derfyn ei yrfa ddaearol. Galwais ar Mr. Evans. Ymwelodd Miss Mary Jones, Nantyrymenyn â mi.

Ebrill 13. Cynhaliwyd ein Ffair Flodau. Y mae Mr. P. Joseph yn dal i feddwl o hyd am sefydlu yng Nghiliau. Y mae rhyw oedi o du Mr. T. Griffiths yng Nghribin. Y mae wedi ymddiswyddo, ond nid yn hollol fodlon.

Ebrill 14. Rhoddais 1s. i Hannah i dalu am nyddu gwlan a'i gribo ar gyfer hosanau i mi.

Ebrill 15. Nid oes gennyf ysgolheigion ond y lletywyr.

Ebrill 16. Wedi cinio gynnar euthum yng nghwmni Enoch Jones, Felingeiron i weld Malen Daniel Stephen ym Mhenrhiw Llanwenog, sy'n cadw ei gwely, ac wrth bob tebyg ar fin mynd oddiyma, a phregethais yno oddiar Ioan xvii, 3, ychydig wrandawyr.

Mai 7. Euthum i Bantydefaid, lle y pregethodd Mr. P. Joseph oddiar Ioan iv, 22. Pregethais innau oddiar Philipiaid iii, 9 yng Nghwrtnewydd. Clywais fod Mr. Lloyd Davies yn wael iawn o dwymyn yr ymennydd.

Mai 22. Yr wyf newydd ddarllen yn 'The Inquirer' yr hysbysiad canlynol: Dydd Mawrth diwethaf gosodwyd carreg sylfaen capel newydd yn Hope St. Lerpwl, i'r gynulleidfa a fu am flynyddoedd yn addoli yn Paradise St. Agorwyd capel Paradise St. yn 1791, a bwriadwyd ei agor gan Dr. Priestley, ond rhwystrwyd hynny gan y terfysg (*riots*) yn Birmingham.

Mai 25. Cleddir Malen Daniel Stephen yfory yn Llanwenog. Gofynwyd i mi bregethu'n yr angladd.

Mai 26. Gwerthais un copi o "Grwth Dyffryn Cletwr" i Dd. Lloyd Dolmaen am 3s.

Mai 27. Euthum i weld John Enoch Felingeiron. Y mae'n wan iawn.

Mehefin 4. Euthum i Alltyplaca, lle y pregethais dros Mr. D. Evans oddiar I Tim. iv, 8. Am 3 o'r gloch pregethais yng Nghwrtnewydd oddiar II Cor. v, 21. Cynulleidfa dda.

Mehefin 6. Y mae colyn y barlys ar Ffarmfach o fewn modfedd i ymddangos.

Mehefin 11. Ymwelodd Mr. Stevens, myfyriwr, â mi. Ciniawodd ac yfodd dê gyda mi.

Mehefin 17. Derbyniais lythyr oddiwrth Mr. John Lewis, Llanelli, yn fy ngwahodd i agor ysgol yno.

Mehefin 18. Euthum i Lwynrhydowen lle y pregethais oddiar I Ioan i, 7, ac yn y Felinewydd oddiar I Tim. iv, 8.

Mehefin 21. Euthum i Gaerfyrddin. Yr oedd arholiad y myfyrwyr wedi dechrau.

Mehefin 24. Deuthum gartref. O achos y glaw cymrais y *coach* yng Nghonwil. Telais 2s.

Mehefin 26. Y mae Mr. Rees Cilgell wedi marw. Talodd y Parch. Timothy Davis [o Evesham, mab y Parch. D. Davies Castellhywel] ymweliad cyfeillgar â mi.

Mehefin 28. Aeth Mr. Timothy Davis a'i nai, Mr. D. Evans, Maesymeillion yn eu cerbyd (*gig*) i Gilgell, a cherddais innau. Angladd mawr o wyr traed yn unig. Yfais dê gydag ereill ym Maesymynach.

Mehefin 30. Claddwyd Mali Blaencwm.

Gorffennaf 2. Euthum i Bantydefaid. Arweiniwyd gan Mr. Jones, Aberdar, a phregethodd Mr. James oddiar Actau iii, 26. Euthum gyda Josiah Evans i Dregroes i ginio. Gwelais fod y blast ar datws Mr. Evans cynddrwg a'm rhai i. Tua 6 o'r gloch cyrhaeddodd Mr. O. Evans, a bedyddiodd Owen Evans, mab ei frawd.

Gorffennaf 4. Ail-agor yr ysgol. Dim ond naw o ysgolheigion. Dechreuodd Thos. Harries yn yr ysgol, i letya am 21s. y cwarter.

Gorffennaf 5. Galwodd Mr. John Jones, Aberdar arnaf.

Gorffennaf 16. Mynd ar gefn merlen Mr. Evans, y landlord, i Faesmynach. Pregethais yng Nghribin oddiar Phil. iii, 9. Gweinyddodd Mr. Jeremy Swper yr Arglwydd. Am 3 o'r gloch pregethais yng Nghaeronnen oddiar Ioan x, 30. Cyrraedd gartref tua 10.30 p.m.

Gorffennaf 23. Euthum heddiw i Bantydefaid. Yr oedd Mr. Thomas yn y pulpud yn darllen pan euthum i mewn. Daeth i lawr ataf a gwasgodd yn galed iawn arnaf i bregethu—hynny a wneuthum oddiar I Tim. iv, 8.

Gorffennaf 28. Mrs. Rees, gweddw y Parch. Wm. Rees, yn ymweled â mi.

Gorffennaf 30. Brochgeuais geffyl Thomas Cwmawr i'w dŷ, wedi benthyca cot fawr Mr. Samuel Jones yng Ngalltyrodyn Arms. Pregethais yng Nghwrtnewydd i gynulleidfa fach oddiar I Ioan v, 4. Cerddais adref.

(*I'w barhau*)

Marwgofion.

Mai 29, yn 46 mlwydd oed, bu farw Mrs. ELIZABETH DAVIES, Cofadail, Cwrtnewydd, merch i Mrs. Evans a'r diweddar Mr. Evans, Cwrt Farm, ac annwyl briod Mr. Evan Davies, mab Camnant, Pontshaen. Er nad oedd hi'n gryf mewn iechyd, byr gystudd a gafodd ar y diwedd, ac yr oedd ei marwolaeth yn syndod blin i'r gymdogaeth. Yr oedd yn aelod ffyddlon yng Nghapel y Bryn, a hithau'n fawr ei serch tuag at yr achos, ac yn wasanaethgar gyda'r canu. Hoffid hi'n fawr gan bawb. Mewn galar dwys ar ei hol y mae ei phriod, a dau fab, merch a lliaws o berthynasau. Claddwyd y dydd Iau dilynol ym mynwent Capel y Bryn, a'r Parchn. S. Thomas ac E. O. Jenkins yn gwasanaethu'n y ty, y Parch. S. E. Bowen yn y Capel, a'r Parch. Lewis Williams ar lan y bedd.

Mehefin 5, ar ol cystudd o ychydig ddyddiau, ELIZABETH JONES, annwyl briod Mr. Thomas Jones, Pennant, Rhydowen, Llandysul, yn 57 mlwydd oed. Nid oedd o gyfansoddiad cryf, ac ers blynyddoedd rhaid oedd iddi gymryd bywyd yn bwyllog ac hamddenol, a thebyg i wres mawr dechrau Mehefin brofi'n ormod iddi. Gadawodd, heblaw ei phriod, fab, merch, dwy chwaer, dau frawd, a neiaint. Claddwyd y dydd Gwener dilynol ym mynwent Pisgah, Talgarreg, yr angladd yn gyfyngedig i'r perthynasau. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins; Gwilym Morris, Pisgah; ac E. Griffith Jones.

Nodion yr Eglwysi.

Cynhelir CYFARFODYDD BLYNYDDOL y Gymdeithas ym Mhantydefaid ar dyddiau Mawrth a Mercher, Awst 8 a 9.

Y BERERINDOD.—Ceir hanes llawn am bererindod Undodiaid Morgannwg ar Fehefin 17 i Langynwyd a Brynllywarch yn rhifyn Awst. Cynnwys ysgrifau ar y rhesymau dros Anghydffurfiaeth, a'r Parch. Samuel Jones, M.A. a'i ddylanwadau.

CYMANFA GANU CEREDIGION.—Cynhelir pwyllgor y gymanfa yng Nghapel y Bryn ar ddydd Sul, Gorffennaf 16, am 4 o'r gloch. Disgwylir dau gynrychiolydd o bob capel. Gyda'r materion arferol dymunir i'r cynrychiolwyr ddod a'u dewisiadau o donau ac emynau.—DAN DAVIES, *Ysgrifennydd.*

GALWAD.—Y mae Mr. Ernest Davies, myfyriwr yng Ngholeg Caerfyrddin, ac aelod o gynulleidfa Gellionnen a'r Graig, Trebanos, wedi derbyn galwad i fod yn weinidog i eglwysi Loughborough a Coalville. Bydd yn dechrau ar ei weinidogaeth ym mis Awst. Dymunwn yn dda iddo, a llongyfarchwn ei chwaer hefyd ar ennill ohoni y radd o B.A. yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe.

LLONGYFARCH.—Bydd yn dda gan lawer o ddarllenwyr Yr Ymofynnydd glywed am lwyddiant Mr. John Morgan Davies, mab Mr. a Mrs. Griffith Davies, Brynclettwr a Rhydyfene, Llandysul. Enillodd y radd o B.Sc. mewn amaethyddiaeth gydag anrhydedd yn y dosparth blaenaf mewn economeg. Llongyfarchwn ef yn gynnes iawn, a dymunwn yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

CAERDYDD.—Llongyfarchwn Mr. Jack Bowen, un o ffyddloniaid West Grove, ar ei lwyddiant yn ennill y graddau—M.B., Ch.B.—yn y Welsh School of Medicine, Caerdydd. Ar hyd ei yrfa ddisglair ni phallodd ei ddiddordeb ym mywyd cymdeithasol y Coleg a'i chwaraeon. Llynedd efe oedd capten y tîm Rugger. Y mae Dr. Bowen yn fab i'r Parch. a Mrs. S. E. Bowen, Alltyplaca Manse.

LLUNDAIN.—Bydd y GWASANAETH CYMRAEG yn Eglwys Unity, Islington, N.1. ar Orffennaf 2 am 4.15, pryd y pregethir gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa. Wedi'r gwasanaeth cynhelir "cwrdd eglwys," pryd y rhoddir ystyriaeth fanwl i'r sefyllfa a'r anghenion ariannol.

Yn y gwasanaeth ar Awst 6 pregethir gan y Parch. E. H. Morris, M.A., B.D., Southport.

BRYNIAU CASIA.—"Khasi News. No. 4."—felly y disgrifir y "wall newspaper" a ddanfonwyd yn ddiweddar gan y General Assembly i'r eglwysi a'r ysgolion Sul. Y tro hwn rhifyn bywgraffyddol ydyw, a chynnwys ddarluniau o Miss Barr a rhai o arweinwyr yr eglwysi Undodaidd ym Mryniau Casia. Ceir yma ddarlun o'r plant sy'n byw gyda Miss Barr, ac yn mynychu ei hysgol. Gofynnir i chwi am roddi sylw i'r genhadaeth yn yr India, a gellir cael amlenni casglu o Essex Hall.

CAPEL Y GROES.—Y Sul cyntaf o Fehefin, ar derfyn y gwasanaeth arferol, cyflwynodd y cyn-weinidog, ar ran y gynulleidfa, awrlais brydferth ynghyd a swm o arian i'r gweinidog, y Parch. E. Griffith Jones, ar achlysur ei briodas ; a llestri te arian i Mrs. Jones, gan Mrs. Evans, Pwllglas. Siaradwyd gan Miss Evans, Ffynnonfair, dros y gynulleidfa, a chan y Cynghorwr John Evans, Beily, ar ran yr Ysgol Sul. Rhoddwyd i Mrs. Jones roeso gwresog ar ei dyfod i'n plith, gan ddymuno i'w phriod a hithau fywyd cyfoethog o ddedwyddwch. Y mae Mrs. Jones eisoes wedi gwneuthur ei hun yn gartrefol, a phawb yn hoff ohoni hi a'i phriod.

CRIBYN.—Y dydd cyntaf o Fehefin, caed gwyl de, rhoddedig gan a ganlyn : Mr. a Mrs. Davies, Frondeg ; Mr. a Mrs. Davies, Tanyfron ; Mr. a Mrs. Jones, Llys y Coed ; Miss Davies, Pensarn ; Mr. a Mrs. Evans, Maesmynach ; Mr. a Miss Herbert, Gwelfryn. Daeth nifer anarferol luosog i gyfranogi o'r danteithion. Yn yr hwyr, caed cwrdd adloniadol, dan lywyddiaeth y gweinidog (y Parch. E. G. Jones) ac arweinyddiaeth y Parch. Islan Jones, M.A. Yn ystod y cwrdd hwn cyflwynodd Mrs. Evans, Cribyn Farm, goded o arian i'r gweinidog ar achlysur ei briodas. Siaradwyd gan y Parch. Islan Jones a Mr. Evan Davies, Frondeg. Yr oedd Mrs. Jones hefyd yn bresennol, a bu'n hynod ddiwyd gyda'r plant. Gobeithiwn y bydd iddi deimlo'n gartrefol yn ei chysylltiadau newydd.

ABERYSTWYTH.—Eleni i Gaerfyrddin a Llansteffan yr aethom ni fel cynulleidfa am ein gwibdaith flynyddol a hynny ar Fehefin 10. Yn anffodus, ychydig fu yn alluog i fynd, ond mwynhaodd y rhai a aeth eu hunain hyd yr eithaf. Aethpwyd (mewn ceir modur) trwy Aberaeron, Llandysul a Phencader a deuwyd yn ôl trwy New Inn, Llanybydder ac Aberaeron. 'Roedd y wlad ar ei gorau y diwrnod hwnnw a mwyniant perffaith i'r llygaid a'r yspryd oedd yr olwg arni. Wedi cyrraedd Caerfyrddin awd yn syth i'r Coleg Presbyteraidd lle y croesawyd y cwmni gan y Prifathro a Mrs. W. S. Jones. Wedi cael golwg weddol drwyadl ar y Coleg cafwyd tê blasus trwy eu haelioni, ac yna awd i weld yr Amgueddfa leol a Chapel Parc-y-felfed. 'Roedd erbyn hyn yn tynnu ymlaen at chwech o'r gloch ond rhaid oedd mynd eto i Lansteffan trwy wlad brydferth, ac yn ôl ar hyd ffordd gul, ramantus. Wedi cyrraedd Caerfyrddin rhaid oedd aros i swper yn nhŷ y Prifathro a'i briod garedig, i'r rhai cyn ymadael y talwyd pleidlais o ddiolchgarwch cynnes am eu mawr garedigrwydd. Cyrhaeddwyd adref ychydig cyn hanner nos wedi taith bleserus.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.